

**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD GWENER, 22 IONAWR 2021**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: R.G.Jones, C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham,  
A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave a/ac  
L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

C.Griffiths, H.Jenkins, K.Jones, A.Jarrett, D.Griffiths, P. Jackson, A.Thomas  
a/ac J.Woodman-Ralph

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau yn y cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

4. **CYNLLUN ARGYFWNG BYSIAU 2**

**Penderfyniadau:**

1. Bod egwyddorion cytundeb y Cynllun Argyfwng Bysiau 2 fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd yn cael eu cymeradwyo

i sicrhau cymorth ariannol (amodol) i'r sector bysiau ac i sefydlu perthynas â'r awdurdod arweiniol rhanbarthol a'r llofnodwr, sy'n sicrhau bod y cyllid brys parhaus yn cyflawni blaenoriaethau'r awdurdod ac yn cael ei ddarparu ar ei ran.

2. Rhoddir yr awdurdod dirprwyedig hwnnw i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio a'r Pennaeth Peirianeg a Thrafnidiaeth mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Cabinet perthnasol i ymrwmo i Gytundeb Partneriaeth Gwirfoddol ymbarél newydd gyda Thrafnidiaeth Cymru Llywodraeth Cymru, y cynghorau a'r gweithredwyr rhanbarthol cyfansoddol yn ôl y gofyn.
3. Bod y broses gaffael bresennol a'r ymgynghoriad ar gyfer y rhwydwaith bysiau lleol cymorthdaledig yn cael eu terfynu a bod y trefniadau contract presennol yn cael eu hestyn gyda gweithredwyr am gyfnod o flwyddyn hyd at 31 Awst 2022 ac eithrio gofynion Rheol 11 o'r Rheolau Caffael Contractau.
4. Bod adroddiad ar y cynigion i ddiwygio bysiau sy'n ymwneud â rheoli'r gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yng Ngwanwyn 2021.

### **Rheswm dros y penderfyniadau:**

Sicrhau'r cyllid ar gyfer gweithredwyr bysiau tra bo nawdd yn isel ac wrth i'r pandemig effeithio ar wasanaethau.

### **Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau i'w rhoi ar waith ar unwaith.

### **Ymgynghoriad:**

Ymgynghorwyd yn llawn â phartneriaid rhanbarthol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Swyddogion Cydlynus Trafnidiaeth.

**CADEIRYDD**